| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD** | 9 Mehefin 2011 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Adolygiad Etholiadol Sirol 2011 - Cefndir |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Rhoi'r cefndir i'r gweithgareddau cyfredol |
| **GWEITHREDU** | Ystyried yr argymhelliad |

1. **Cefndir**:
   (a) Fe wyr Aelodau mai un o argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol i Weinidogion Cymru, yn dilyn yr Ailarchwiliad Llywodraethu Corfforaethol o'r Cyngor Sir yn Chwefror 2011 oedd : *gofyn i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru adolygu ei gynigion a gyhoeddwyd yn 2010 i sicrhau bod y newidiadau a gynigir yn rhoi sylw digonol i'r angen am adnewyddiad democrataidd yn Ynys Môn o ran nifer y cynghorwyr a chyflwyno wardiau amlaelod.*

   (b)Ar 28 Mawrth 2011 rhoddodd y Gweinidog ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gyfarwyddyd i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynnal adolygiad pellach o'r sir a'i threfniadau etholiadol a gwneud cynigion diwygiedig ynghylch dymunoldeb rhanbarthau amlaelod ledled y Sir a nodwyd y dylid ceisio cynnig cymhareb Cynghorwyr - Etholwyr sydd cyn agosed â phosib i 1:1750.

   (c)Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Comisiwn gyflwyno'r adolygiad pellach a'r cynigion i'r Gweinidog erbyn dim hwyrach na 30 Medi 2011. Unwaith y byddant wedi'u cyflwyno, rydym yn deall y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi cyfnod o 6 wythnos ar gyfer ymgynghori ar y cynigion terfynol cyn y bydd yn penderfynu ar y Gorchymyn.

2. **Yr Adolygiad Blaenorol:** Cynhaliwyd arolwg blaenorol yn ystod 2009 a dechrau 2010 gan y Comisiwn a chyflwynwyd y cynigion terfynol i'r Gweinidog ym Medi 2010 gydag argymhelliad o 36 o aelodau yn cynrychioli 31 o ranbarthau etholiadol. Trafodwyd hyn gan y Cyngor ar 14 Medi 2010 a phenderfynwyd : *"bod y Cyngor, er yn anfodlon, yn derbyn y cynigion ond ei fod yn gofidio na wnaeth y Comisiwn Ffiniau gymryd i ystyriaeth rai o'r sylwadau a wnaed gan y Cyngor."* Ar 8 Rhagfyr 2010 penderfynodd y Gweinidog beidio â gwneud unrhyw Orchymyn mewn perthynas â'r adolygiadau ffiniau ar gyfer unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru a fyddai'n dod i rym ar gyfer etholiad 2012.

3. **Y sefyllfa ar hyn o bryd:** Gallai'r cyfarwyddyd cyfredol olygu 29 o aelodau etholedig ar gyfer y sir, gan gynnwys, mae'n debyg, wardiau amlaelod. Mae

wardiau amlaelod eisoes yn bodoli mewn 19 o'r Siroedd yng Nghymru ar hyn o bryd ac maent yn amrywio, o ran nifer, rhwng 2 a 4 aelod fesul rhanbarth. Efallai y bydd aelodau yn dymuno gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain i drefniadau amlaelod, yn arbennig y sefyllfa yn yr Alban lle mae'r model hwn o fecanwaith llywodraeth leol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer penderfynu cynrychiolaeth aelodau ar y Cynghorau lleol. Gall adroddiad o'r enw *Perspectives on Multi Member Ward Working* (http://www.improvementservice.org.uk/news-2007/news-2007/perspectives-on-multi-member-ward-working/) roi rhywfaint o gefndir cychwynnol.

4. **Y cynigion drafft:**

    i. Mae'r Comisiwn Ffiniau wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi copi o'i gynigion cychwynnol erbyn diwedd mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf 2011, gan ddarparu, o'r hyn yr ydym yn ei ddeall, gyfnod o 8 wythnos ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn. Bydd hyn yn golygu y bydd modd iddo ystyried sylwadau'r etholwyr cyn llunio ei argymhellion terfynol i'r Gweinidog erbyn 30 Medi 2011. Ar ôl y dyddiad olaf hwn, rydym yn deall y bydd cyfnod ymgynghori pellach o 6 wythnos ynghylch cynigion terfynol y Comisiwn a chyflwynir unrhyw sylwadau'n uniongyrchol i'r Gweinidog i'w hystyried cyn y bydd ef yn penderfynu ar y Gorchymyn. Gall y Gorchymyn gymeradwyo argymhellion y Comisiwn neu gynnwys newidiadau yn dilyn yr ymgynghoriad, yn unol â disgresiwn y Gweinidog.

    ii. Yn ogystal, gwnaed cais bod aelod o'r Comisiwn yn dod i'r cyfarfod o'r Cyngor yn ystod Gorffennaf 2011 i gyflwyno'r cynigion cychwynnol.

5. **Argymhelliad:** oherwydd y bydd y cynigion diwygiedig, os bydd rhai, yn dod i rym, mae'n debyg, o ddyddiad yr etholiad nesaf a drefnwyd ar gyfer Mai 2012 ac oherwydd y byddant yn fecanwaith ar gyfer llywodraethu sirol hwylus i ddinasyddion Ynys Môn am y 10 i'r 15 mlynedd nesaf, efallai y bydd yr Aelodau yn dymuno hyrwyddo cynigion cychwynnol y Comisiwn trwy drafod gyda'r cymunedau; trwy hwyluso "sioeau teithiol" a chyhoeddusrwydd neu drefniadau tebyg o bosib ledled y Sir fel bod modd i'r etholwyr fynegi barn am y trefniadau. Yn ogystal, efallai y bydd Aelodau yn dymuno ystyried sut y bydd y Cyngor yn trafod ac yn cyflwyno sylwadau ar y cynigion cychwynnol ym mis Gorffennaf a'r cynnig terfynol wedyn yn Hydref 2011 o fewn y cyfnod ymgynghori a ddarparwyd.

DIWEDD.